

OWEN, HENRY (1716 - 1795), clericwr, meddyg, ac ysgolhaig

Enw: Henry Owen

Dyddiad geni: 1716

Dyddiad marw: 1795

Rhiant: Jonette Owen

Rhiant: William Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: clericwr, meddyg, ac ysgolhaig

Maes gweithgaredd: Crefydd; Meddygaeth; Ysgolheictod ac leithoedd

Awduron: Robert Thomas Jenkins, Llewelyn Gwyn Chambers

Ganwyd yn 1716 yn Nyffrydan, tua 3 milltir o Ddolgellau, yn fab i William Owen (a fu farw 1767), cyfreithiwr, a bedyddiwyd 29 Ionawr yn Nolgellau. Enw ei fam oedd Jonet(te). Yn ôl *Powys Fadog* (vi, 463-72), hanoedd y teulu o'r [barwn Lewis Owen](#). Ail fab oedd Henry Owen; y mab hynaf oedd Lewis Owen (a fu farw 1757), a mab i hwnnw oedd y meddyg Henry Owen (1750 - 1827) o Ddolgellau, a ymbriododd i deulu [Oweniaid](#) Tyddyn-y-garreg a'r Llwyn Du, ac a oedd yn Grynwr fel hwythau - ef, yn 1786, a werthodd dir i'r Methodistiaid Calфинаidd i godi eu capel cyntaf yn Nolgellau ([R. Owen](#), *Meth. Gorllewin Meirionydd*, i, 360).

Addysgwyd Henry Owen yn ysgol Rhuthyn a Choleg Iesu, Rhydychen; ymaelododd yn Rhydychen fis Ebrill 1736 yn 19 oed; graddiodd yn 1739; graddiodd wedyn mewn meddygiaeth yn 1746 (M.D. 1753). Urddwyd ef yn 1746, a bu'n gurad ac yn feddyg yn sir Gaerloyw am dair blynedd; yna rhoes heibio i fod yn feddyg ar gyfrif gwaeledd. Bu'n gaplan i'r bonheddig, a rhoes hwnnw iddo yn 1752 reithoraeth Terling yn Essex - yr oedd hefyd yn gurad yn Stoke Newington. Etholwyd ef yn F.R.S. yn 1753. Penodwyd ef yn 1760 yn rheithor S. Olave's, Hart Street, gerllaw Tŷ'r Llundain (a cherllaw y 'Navy Office'); ac yn 1775, ac yntau'n gaplan i'r esgob Barrington o Landaf, rhoes yr esgob iddo ficeriaeth Edmonton i'w dal gyda S. Olave's. Bu farw yn Edmonton 14 Hydref 1795. Am ei blant a'i ddisgynyddion, gweler *Powys Fadog*, loc. cit.

Nid oes unrhyw amheuaeth o'i ddysg - fel mathemategwr, fel ysgolhaig clasurol, fel awdurdod ar feirniadaeth Feiblaidd, Hebraeg, a Groeg. Ond ymddiddorai hefyd mewn hynafiaethau Cymreig, ac yn llawysgrifau Cymreig [William Jones](#). Barnai [Syr John Lloyd](#) yn hollol bendant mai ar gam y priodola *Llyfryddiaeth y Cymry* iddo'r *History of Anglesea*, 1775 (ond sonia'r *Llyfryddiaeth* hefyd am argraffiad yn 1748), sy'n cynnwys traethawd ar [Owain Glyndŵr](#) gan [Thomas Ellis](#), Dolgellau - awdur yr *History*, meddai [Syr John](#), oedd [John Thomas](#), Biwmares, a gwir awdur y traethawd oedd [Robert Vaughan](#) o'r Hengwrt. Ond Henry Owen a olygodd yr ail arg., 1766, o *Mona Antiqua Restaurata* [Henry Rowlands](#). Yr oedd yn aelod blaenllaw o'r Cymmrodorion, ac ef a fyddai'n 'golygu' papurau a anfonid i'w darllen o flaen y gymdeithas. Sonir llawer amdano yn llythyrau'r [Morysiaid](#). Yr oedd yn gymydog ac yn gyfaill i [Richard Morris](#) - nid na allai [Richard](#) gyfeirio'n ddireidus at ei briodas â llances lawer iawn iau nag ef (merch i esgob), ac at farn y gymdogaeth 'mai rhyw grintach ddiawl ydyw yn ei dŷ', a

bod iddo forwyn newydd agos bob wythnos.' Eto, ato ef y rhedai'r [Morysiaid](#) am gynghorion meddygol yn eu mynych ac amryfal anhwylderau. Dyn lled afiach oedd yntau, meddai'r llythyrau - dyn 'cul' ei gorff. Cyfeillion eraill iddo oedd [Silvanus Bevan](#) a [John Evans](#), Eglwys Cymyn.

Awduron

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dr Llewelyn Gwyn Chambers

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

J. H. Davies, *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765* (1907–9)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* (London 1947-9)

History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog

Cofrestri Plwyf Dolgellau yn LIGC

Delweddau

Samuel Drummond, W Bromley, [Henry Owen, D.D.](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [13738984](#)

Wikidata: [Q5726568](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

